Llwybrau Hyrwyddedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Pen y Gwryd i Ben y Pass

ANODD/LLAFURUS



Trosolwg o'r Daith

Pellter: 2km (1.25 milltir)

Hyd: 1 awr

Math o daith: Yn ac yn ôl

Cyn i chi gychwyn

Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.

eryri.llyw.cymru

V-20220323/2045

Wrth adael eich car, anelwch ar hyd ochr dde'r ffordd tuag at Nant Gwynant. Ewch trwy'r giât mochyn pren a chadwch i'r dde. Ewch dros y bont bren a dilynwch y llwybr i fyny tuag at Ben y Pass.

Cyn hir fe ddewch at graig a grisiau cerrig – parhewch i gerdded ar y llwybr.

Wrth gyrraedd y gyffordd fechan, parhewch ymlaen i'r dde gan ddilyn yr arwyddbost am 'Pen y Pass'.

Ewch drwy'r giât mochyn pren. O'r fan hon, gallwch gerdded i'r chwith i ymuno â Llwybr y Mwynwyr neu i'r dde, a thrwy'r maes parcio, i ymuno â Llwybr Pyg.